## Awdurdod Parc Cenedlaethol

**15 Medi 2021**

Yn Bresennol: Cynghorydd P Harries (Cadeirydd)
Cynghorydd P Baker BEM, Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd M Evans, Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, Mrs J James, Cynghorydd M James, Mr G Jones, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd R Owens, Dr R Plummer, Cynghorydd A Wilcox, Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland.

[Cyrhaeddodd y Cynghorydd Mrs D Clements adeg ystyried materion yn codi o gofnodion y cyfarfod diwethaf.]

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am – 11.15am; 11.25am –1.10pm)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

**2. Datgan Buddiannau**
Datganodd Dr R Plummer bod ganddo fuddiant personol ond nid rhagfarnus yn adroddiad 37/21 Canllawiau Cynllunio Atodol APCAP ac yn adroddiad 41/21 Croeso Sir Benfro.
Datganodd y Cynghorydd Mrs D Clements bod ganddi fuddiant personol ond nid rhagfarnus yn adroddiad 41/21 Croeso Sir Benfro.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 28ain o Orffennaf 2021 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**Penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 28ain o Orffennaf 2021.

**4. Materion yn codi**
(a) Cofnodion y Pwyllgor Adolygu Gweithredol 23 Mehefin 2021 Cofnod 6(iii)
Gofynnwyd am ddiweddariad ar y posibiliadau o sefydlu Parc Cenedlaethol Morol. Dywedodd y Prif Weithredwr bod angen cynnal trafodaethau yn fewnol ac yn allanol – gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru - gan fod gweithio mewn Partneriaeth yn debygol o arwain at fwy o lwyddiant. Nodwyd hefyd na fydd y Daith Astudio i'r Aelodau ar 29 Medi bellach yn mynd i ganolbwyntio ar yr amgylchedd morol, gan na fydd amseroedd y llanw yn addas ar gyfer ymweliad ar y blaendraeth, ond y byddai'r daith yn canolbwyntio ar brosiectau eraill. Fodd bynnag, roedd yr Aelodau wedi derbyn gwahoddiad i ymweliad safle ddechrau mis Hydref a drefnir gan Swyddog ACA Morol Sir Benfro.

(b) Cofnodion y Pwyllgor Personél 23 Mehefin 2021 (Cofnod 6(iv))
Gofynnwyd am ddiweddariad ar ymgeiswyr i'r Cynllun Kickstart. Atebodd y Prif Weithredwr bod lleoliadau wedi'u cynnig i ddau unigolyn - fel Cynorthwyydd Cymorth Archaeoleg ac fel Cynorthwyydd Gwasanaeth Cwsmer a Warden Safle yng Nghastell Caeriw. Roedd recriwtio ar gyfer lleoliadau eraill yn parhau.

(c) Digwyddiadau Corfforaethol (Cofnod 13a)
Dywedodd Dr M Havard bod y cwrs Sefydlu Cenedlaethol i Aelodau yn digwydd ar hyn o bryd a'i bod hi a Dr R Plummer yn cynorthwyo i hwyluso'r sesiwn ar "Rôl yr Aelod", a'i gobaith oedd y byddai'r sesiwn yn ddiddorol i'r cyfranogwyr.

(d) Adolygiad o'r Cynllun Cyfranogiad y Cyhoedd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu (Cofnod 15)
Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, cytunodd y Prif Weithredwr i sicrhau bod y canllawiau diwygiedig yn cael eu dosbarthu i'r Aelodau.

**Nodwyd.**

**5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd wedi mynychu llawer o ddigwyddiadau ers y cyfarfod blaenorol, ond ei fod wedi mynychu cyfarfod o Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r gweithdy a drefnwyd gan yr Awdurdod ar Apeliadau Cynllunio. Hefyd roedd wedi mynychu lansiad y prosiect Grŵp Amgylcheddol Ardal Trefdraeth a ariannwyd gan Gronfa Datblygu Cynaliadwy yr Awdurdod. Ychwanegodd y byddai ar y diwrnod canlynol yn cychwyn ar ei daith gerdded ar Lwybr Arfordir Sir Benfro a bod croeso i unrhyw un ymuno ag ef ar ei daith; y bwriad gwreiddiol oedd cynnal y daith gerdded yn 2020 i ddathlu hanner canmlwyddiant creu'r Llwybr, ond rhaid oedd gohirio'r daith.

**Nodwyd.**

**6. Adroddiadau cyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau i'w hystyried/er gwybodaeth:

(i) Y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 21 Gorffennaf 2021;
(ii) Y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2021;
(iii) Y Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2021; a'r
(iv) Pwyllgor Ieuenctid a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2021.

O ran Cofnod 7 y Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau, gofynnodd un Aelod a oedd dyddiad wedi'i dderbyn i asesu cais yr Awdurdod am statws Uwch yn y Siarter Cefnogi a Datblygu Aelodau. Atebodd y Rheolwr Gweinyddiaeth a Gwasanaethau Democrataidd bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi gofyn am eglurhad ar rai pwyntiau, a'r gobaith oedd, unwaith y byddai hyn wedi'i wneud, y gellir cadarnhau dyddiad ar gyfer yr asesiad.

Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb mewn darllen am y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Pwyllgor Ieuenctid, ac yn gobeithio y gellid bwrw ymlaen â'r awgrymiadau ynghylch cyfathrebu mwy cynhwysol yng nghyhoeddiadau'r Awdurdod. Y gobaith hefyd oedd y gellir cael cynrychiolaeth ehangach o Aelodau'r Pwyllgor Ieuenctid, gyda'r awgrym y gellid cysylltu â mudiad y Ffermwyr Ifanc a sefydliadau chwaraeon.

**Penderfynwyd** mabwysiadu/derbyn cofnodion y Pwyllgorau a enwir uchod.

**7. Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd P Kidney bod Pwyllgor (Rheoli) Datblygu y Parc Cenedlaethol yn caniatáu i siaradwyr ddefnyddio adeiladau Aelodau'r Pwyllgor gyda chaniatâd ymlaen llaw**

Dywedodd y Cadeirydd mai ei fwriad oedd ymdrin â'r Rhybudd o Gynnig hwn yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw ac felly gofynnodd am gynigydd ac eilydd. Fel y cynigydd, cyflwynodd y Cynghorydd Kidney y cynnig drwy egluro bod y mater wedi codi oherwydd ei fod o’r farn bod siaradwr yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu wedi cael ei rwystro rhag siarad ar gais gan ei fod wedi bwriadu siarad o dŷ’r Cynghorydd Kidney. Dywedodd bod y siaradwr wedi gwneud hyn ar ddau achlysur blaenorol ac nad oedd ef, na'r siaradwr, yn hapus am y penderfyniad i beidio â chaniatáu hynny y trydydd tro. Ei Rybudd o Gynnig felly oedd bod siaradwyr yn y dyfodol yn cael defnyddio adeiladau’r Aelodau i annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu gyda chymeradwyaeth ymlaen llaw. Eiliwyd cynnig y Cynghorydd Kidney gan y Cynghorydd A Wilcox.

Roedd rhai Aelodau yn cytuno gan nad oedd gan bob aelod o'r cyhoedd ddefnydd cyfrifiadur neu nad oeddent yn hyderus yn defnyddio cyfrifiadur, mai anghywir oedd cyfyngu ar eu gallu i siarad; cyhyd â bod cymeradwyaeth ymlaen llaw wedi'i rhoi, roeddent yn hapus gyda'r Rhybudd o Gynnig. Dywedwyd bod gan nifer o Gynghorwyr Sir gysylltiad agos â Chynghorau Tref/Cymuned a’u bod am eu hwyluso i fynegi eu barn. Fodd bynnag, ni allai Aelodau eraill gefnogi'r Cynnig. Gofynnwyd gan bwy y byddai angen cymeradwyaeth ymlaen llaw, a barnai un Aelod y gallent gael eu rhoi o dan bwysau i gynnal y cyhoedd pan nad oedd ganddynt y cymhwysedd na'r cysylltedd i wneud hynny. Hefyd roedd materion cyfrinachedd, dylanwad, a diogelwch personol i'w

hystyried. Dywedodd yr Aelodau, lle roedd yr Awdurdod yn dymuno caniatáu cyfranogiad y cyhoedd a rhanddeiliaid yn ei gyfarfodydd, bod cyfrifoldeb ar yr Awdurdod i wneud darpariaeth briodol i hyn ddigwydd, ac roeddent o'r farn bod darpariaethau o'r fath yn cael eu gwneud; cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd y Parc bod hyn wedi digwydd yn yr achos a godwyd gan y Cynghorydd Kidney. Hefyd codwyd y mater o ganfyddiad y cyhoedd, yn enwedig y mater o gysylltiad personol ag Aelod sy'n cynnig mynediad i'w dŷ all hefyd olygu dylanwad, ac awgrymwyd y gallai ymddangos i'r cyhoedd bod Aelod eisoes wedi penderfynu ar y mater dan sylw cyn y cyfarfod os yw'n eistedd ochr yn ochr â siaradwr.

Gallai'r Cynnig effeithio ar senarios posibl eraill yn anfwriadol, megis partner Aelod yn dymuno siarad, ac awgrymwyd y byddai geiriad y Cynnig yn elwa o fod yn gliriach. Barnwyd bod perygl mewn mabwysiadu polisi mewn ymateb i senario benodol, a'i bod yn bwysig cadw'r mater yn gwbl ar wahân i'r achos dan sylw.

Gofynnwyd am gyngor y Swyddog Monitro hefyd, a dywedodd, ar yr amod bod yr Awdurdod wedi gwneud trefniadau digonol i siaradwr siarad o'i adeilad, ei fod yn fodlon na fyddai'n agored i feirniadaeth gan yr Ombwdsmon. Hefyd dywedodd nad oedd hawl absoliwt i siarad, a phan gynhelir cyfarfodydd yr Awdurdod yn Llanion, roedd disgwyl i aelodau'r cyhoedd fod yn bresennol yn y lleoliad hwnnw. Fodd bynnag, dywedodd bod yn rhaid i'r Aelodau fod yn ofalus ynghylch canfyddiad y cyhoedd a bod yn rhaid iddynt fod yn annibynnol wrth wneud penderfyniadau. Gallai fod problem hefyd pe bai siaradwr yn mynd yn sarhaus a bod yn rhaid ei atal rhag siarad, gan y gallai hynny atal yr Aelod hefyd rhag siarad.

Yna daeth y cynigydd â'r drafodaeth i ben drwy ddweud bod canfyddiad y cyhoedd yn y cyfarfod penodol dan sylw yn wael iawn ac nad oedd ganddo unrhyw betruster cyn cynnig y Rhybudd o Gynnig. Ychwanegodd y byddai'n ceisio ymchwiliad i'r achos dan sylw ar ôl y cyfarfod. Yna cafwyd pleidlais ar y cynnig, ond collwyd y bleidlais.

**Penderfynwyd** nad yw'r Rhybudd o Gynnig "bod Pwyllgor (Rheoli) Datblygu y Parc Cenedlaethol yn caniatáu i siaradwyr ddefnyddio adeiladau Aelodau'r Pwyllgor gyda chymeradwyaeth ymlaen llaw" yn cael ei gymeradwyo.

[Gyda chytundeb yr Aelodau, cymerodd y Cadeirydd adroddiad 38/21 Polisi Diogelu Data, cyn 37/21 Canllawiau Cynllunio Atodol gan fod y Swyddog Diogelu Data yn gorfod gadael y cyfarfod am 11.30am.]

**8. Polisi Diogelu Data**

Dywedwyd bod y Swyddog Diogelu Data, mewn ymateb i sylwadau gan Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod ac fel rhan o’r adolygiad o’r dogfennau allweddol, wedi diwygio’r polisi hwn. Roedd y polisi diwygiedig wedi bod yn destun ymgynghori â'r staff a'r Aelodau, ac roedd yn cael ei gyflwyno gerbron yr Awdurdod yn awr i'w gymeradwyo.

Gan ddiolch i'r Swyddog Diogelu Data am ei chyflwyniad, roedd yr Aelodau yn canmol fformat y ddogfen am fod yn glir a hawdd ei ddefnyddio, ac yn falch o weld bod y sylwadau a gyflwynwyd wedi'u cymryd i ystyriaeth. Fodd bynnag, awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol amlinellu cwmpas y polisi, rhoi diffiniad o’r hyn yw data personol, a bod cyswllt â'r weithdrefn cwynion ar ddiogelu data.

**Penderfynwyd** cymeradwyo’r Polisi Diogelu Data cyn belled â bod y pwyntiau a godwyd yn y cyfarfod yn cael eu hystyried.

*[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11.15 a 11.25am.]*

**9. Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2 - Canllawiau Cynllunio Atodol**

Dywedwyd bod paratoi’r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) o dan y Cynllun Datblygu Lleol 2 wedi bod yn mynd rhagddo, a chyflwynwyd y dogfennau a ganlyn i'w cymeradwyo ar gyfer ymgynghori:

- Ansadrwydd Tir - Gwaith Glo
- Colli Gwestai
- Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol
- Diogelu Parthau Mwynau
- Effaith Gronnol Tyrbinau Gwynt
- Ardaloedd Cadwraeth

Dywedwyd y byddai’r Canllawiau ar Effaith Gronnol Tyrbinau Gwynt yn cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghori ar y cyd â Chyngor Sir Penfro. Byddai’r cyfnod ymgynghori yn parhau am dri mis fyddai'n caniatáu digon o amser i Gynghorau Tref a Chymuned ystyried y dogfennau. Byddai adroddiad ar yr ymgynghori yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod o'r Awdurdod ddechrau’r flwyddyn 2022.

Mewn ymateb i gwestiwn, atgoffwyd yr Aelodau bod yr Awdurdod, yn ei gyfarfod fis Medi 2020, wedi cytuno i drosglwyddo rhai o’r Canllawiau yn ffurfiol o Gynllun Datblygu Lleol 1 fel mesur dros dro at ddibenion rheoli datblygu; byddai'r canllawiau dros dro yn parhau i gael eu defnyddio hyd nes i'r Canllawiau newydd gael eu mabwysiadu.

Gan ddiolch i'r swyddogion am y gwaith aruthrol o baratoi'r Canllawiau, roedd yr Aelodau'n falch bod dolenni cyswllt wedi'u rhoi i'r dogfennau, yn hytrach na'u cyflwyno fel dogfennau copi caled. Roedd gan rai Aelodau sylwadau manwl, yn enwedig mewn perthynas â'r Canllawiau ar Golli Gwestai, a gofynnwyd iddynt gyflwyno'r sylwadau hynny, ac y byddent yn cael eu hystyried fel rhan o'r ymgynghori.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Ansadrwydd Tir - Gwaith Glo; Colli Gwestai; Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol; Diogelu Parthau Mwynau; Effaith Gronnol Tyrbinau Gwynt; a chymeradwyo Ardaloedd Cadwraeth yn Angle, Caerfarchell, Ynys Bŷr, Aber Bach, Maenorbŷr, Trefdraeth, Portclew, Porth-gain, Saundersfoot, Solfach, Tyddewi, Dinbych-y-pysgod a Thre-fin ar gyfer ymgynghori.

**10. Rheoleiddio Rhandiroedd Cymunedol sy'n Bodoli eisoes ar dir sy'n eiddo i'r Awdurdod yng Nghaeau Grapley End, Tre-fin**

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Awdurdod yn eu cyfarfod fis Rhagfyr 2020, wedi caniatáu hawl i brynu rhyw 30 erw o dir yn Nhre-fin i gynnal bioamrywiaeth, mynediad i'r cyhoedd ac amcanion dal a storio carbon. Cwblhawyd prynu'r tir fis Mawrth 2021. Am gyfnod o rhyw bum mlynedd cyn y prynu, caniatawyd i drigolion lleol ddefnyddio rhyw 0.4 erw o'r tir fel rhandir cymunedol ar sail heb ei reoleiddio. Roedd y defnydd hwn wedi parhau ac yn cynnwys 14 llain o dir. Fodd bynnag, nid oedd y swyddogion o'r farn bod hyn yn anghydnaws ag amcanion y safle.

Roedd y swyddogion wedi bod yn trafod gyda deiliaid y rhandiroedd drwy Sefydliad Corfforedig Elusennol Gwelliant Tre-fin ac wedi cytuno ar delerau i reoleiddio parhad y defnydd o'r rhandiroedd fel y nodir yn yr adroddiad. Gofynnwyd am gymeradwyaeth yr Aelodau i ganiatau prydles alwedigaethol newydd.

Roedd mwyafrif yr Aelodau yn falch o gefnogi'r cynnig a'r cydweithredu â'r gymuned leol. Fodd bynnag, awgrymwyd mai'r Cyngor Cymuned ddylai reoli'r rhandiroedd. Hefyd cwestiynwyd a oedd yr Aelodau wedi cael gwybod am fodolaeth y rhandiroedd yn yr adroddiad blaenorol i'r Awdurdod. Ymddiheurodd y swyddogion os oedd y manylion hyn wedi'u hepgor. Dywedwyd bod ymweliad â'r safle wedi'i drefnu fel rhan o'r Daith Astudio i'r Aelodau oedd ar fin digwydd pan fyddai'r swyddogion yn rhannu'r cynlluniau ar gyfer y safle cyfan.

**Penderfynwyd**:

a) cymeradwyo'r egwyddor o greu buddiant cyfreithiol newydd yn y tir i reoleiddio'r defnydd o randiroedd cymunedol sydd eisoes yn bodoli ar Gaeau Grapley End, Tre-fin ar y telerau a amlinellir yn yr adroddiad.

b) dirprwyo'r dogfennau prydles sy'n deillio o hyn i'r Prif Weithredwr i'w cymeradwyo.

**11. Ailddatblygu'r Ystafell Werdd – Y Gyllideb a'r Camau Nesaf**

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn eu cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 16[eg] o Fehefin 2021, wedi cytuno y dylid ystyried disodli'r ystafell bwyllgor (a elwir yn Ystafell Werdd) yn adeilad pencadlys yr Awdurdod ym Mharc Llanion er mwyn cael cyfleusterau modern i wasanaethu cyfarfodydd Pwyllgor, cyfarfodydd staff a chyfarfodydd cymuned yn y dyfodol ac i alluogi'r Awdurdod i fodloni gofynion cyfreithiol newydd, megis y gofyniad i ddarlledu cyfarfodydd ar y we.

Y cynnig amlinellol a gyflwynwyd oedd disodli'r ystafell gyfarfod, y gegin a'r toiledau presennol gydag adeilad unllawr ag ôl troed ychydig yn fwy na'r Portakabins presennol. Barnwyd y byddai adeilad unllawr yn helpu i gadw costau mor isel â phosibl ac yn cael yr effaith leiaf bosibl ar yr eiddo cyfagos ac yn bodloni'r Rheoliadau Adeiladu cysylltiedig o ran hygyrchedd (e.e. darparu mynediad da i gadeiriau olwyn).

Byddai'r adeilad yn cael ei adeiladu i safonau cynaliadwy Llywodraeth Cymru drwy ddefnyddio deunyddiau o ffynonellau cyfrifol er mwyn lleihau'r "milltiroedd adeiladu" i'r eithaf, byddai'n adeilad "ynni isel" ac wedi'i insiwleiddio'n dda er mwyn cyfyngu ar yr ôl troed carbon yn unol â Chynllun Gweithredu yr Awdurdod ar Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd. Byddai'r adeilad newydd yn rhannu buddion technolegau cynaliadwy presennol Parc Llanion, sef gwresogi biomas, systemau ffotofoltäig, system dŵr poeth solar a chynaeafu dŵr glaw.

Roedd yr Awdurdod wedi derbyn rhywfaint o gyngor cychwynnol gan ymgynghorydd QS i helpu i amcangyfrif y costau adeiladu, a chyfanswm yr amcangyfrif o'r gost oedd tua £410,000, heb gynnwys gosodiadau a ffitiadau. Argymhellwyd felly bod yr Awdurdod yn neilltuo £500K o'r cronfeydd wrth gefn i ariannu'r prosiect gyda'r mwyafrif o'r gwariant i'w ysgwyddo ym mlwyddyn ariannol 2022/23. Byddai'r mwyafrif o'r cyllid hwn yn cael ei neilltuo o'r Derbyniadau Cyfalaf, tua £370K, gydag unrhyw arian ychwanegol yn dod o'r Gronfa Gyffredinol. Pe bai'r Awdurdod yn clustnodi ffynonellau eraill o gyllido, yna byddai'n gwneud cais am y cyllid hwnnw. Fodd bynnag, er mwyn peidio ag oedi'r broses, byddai'n symud ymlaen ar y sail y byddai'n talu'r costau o'r Cronfeydd Wrth Gefn.

Er mwyn helpu i reoli risgiau'r prosiect, awgrymwyd y dylid sefydlu 'Grŵp Datblygu'r Ystafell Werdd' i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r prosiect. Cynigiwyd bod y grŵp yn cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cefn Gwlad, Cymunedol ac Ymwelwyr gyda chymorth staff perthnasol yr Awdurdod, dau Aelod i gynrychioli'r Awdurdod ac

ymgynghorwyr penodedig / tîm dylunio. Felly gofynnwyd am enwebiadau hefyd am Aelodau i fod ar y Grŵp Datblygu arfaethedig.

Roedd mwyafrif yr Aelodau yn gefnogol i'r cynnig, gan ddweud ei bod yn hen bryd disodli'r Portakabins presennol nad oedd ar hyn o bryd yn creu argraff gyntaf dda ar ymwelwyr â'r Awdurdod. Mynegwyd pryder ynghylch y posibilrwydd i'r costau gynyddu, ond roedd yr Aelodau yn hapus i gytuno ag egwyddor yr argymhelliad ar y sail y byddai'r Grŵp Datblygu yn monitro'r costau ac y byddai manylion pellach yn cael eu dwyn yn ôl i'r Awdurdod i'w cymeradwyo. Ni allai un Aelod gefnogi'r cynnig, ac awgrymodd bod cyfleusterau eraill ar gael yn y Sir ac y dylid ystyried o ddifrif defnyddio'r cyfleusterau hynny cyn gwario symiau mawr o arian ar adeiladu cyfleusterau newydd.

**Penderfynwyd**:
a) Cytuno ar ddisodli'r Ystafell Werdd fel y nodir yn yr adroddiad.
b) Neilltuo £500K o'r cronfeydd wrth gefn i ariannu'r prosiect.
c) Sefydlu "Grŵp Datblygu'r Ystafell Werdd" i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r prosiect, a phenodi'r Cynghorwyr P Baker a P Morgan yn gynrychiolwyr yr Aelodau.

**12. Croeso Sir Benfro**

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Awdurdod wedi cytuno fis Chwefror 2020 i gefnogi sefydlu Croeso Sir Benfro fel Sefydliad annibynnol ar Farchnata Cyrchfannau yn Sir Benfro. Yn ogystal â chefnogi'r egwyddor o sefydlu'r sefydliad newydd a chytuno i benodi Cyfarwyddwr yn aelod o'r Bwrdd, roedd yr Awdurdod wedi cytuno i roi cymorth ariannol mewn-da ac mewn arian parod fel y nodir yn yr adroddiad.

Ar ôl creu'r sefydliad, roedd Croeso Sir Benfro wedi gwneud cais llwyddiannus i Gyngor Sir Penfro am arian drwy'r Grant Gwella Sir Benfro. Sicrhawyd cyfanswm o £250,637 oedd wedi galluogi Croeso Sir Benfro i benodi dau ymgynghorydd allanol, un yn canolbwyntio ar farchnata a'r llall yn rhoi cymorth ar Gysylltiadau Cyhoeddus. Roedd hyn wedi newid yr hyn oedd ei angen ar Croeso Sir Benfro gan yr Awdurdod gan fod angen £85,000 o arian parod cyfatebol i sicrhau'r grant Gwella Sir Benfro.

O ystyried hyn, byddai'n fuddiol i Croeso Sir Benfro pe bai modd newid y cymorth mewn-da a roddir gan yr Awdurdod am y flwyddyn gyfredol (£34,900) i arian parod. Dywedodd y Prif Weithredwr, gan fod yr Awdurdod wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi marchnata, bod yr Awdurdod mewn sefyllfa i neilltuo'r cyllid hwn.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, nodwyd bod gwall yn y tabl ar dudalen 61 yr adroddiad, lle dylai cyfanswm y cymorth ym Mlynyddoedd 4 a 5 fod wedi darllen £34,900.

Er bod y mwyafrif o'r Aelodau yn hapus i gefnogi'r cynnig, gofynnwyd am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r modd y byddai'r arian yn cael ei wario, a mynegwyd rhai amheuon ynghylch pa mor gynaliadwy oedd Croeso Sir Benfro yn cyflogi ymgynghorwyr ac felly'n dyblygu arbenigedd ar draws sefydliadau yn y Sir. Cwestiynwyd hefyd a fyddai ceisiadau tebyg yn dod i law yn y blynyddoedd i ddod.

Cytunodd y Prif Weithredwr a'r Aelod o Fwrdd Croeso Sir Benfro i ddarganfod pa wybodaeth ariannol oedd ar gael yn gyhoeddus, a rhoi'r wybodaeth honno i'r Aelodau ar ôl y cyfarfod.

**Penderfynwyd** newid y cymorth a roddir i Croeso Sir Benfro yn 2021-22 o fod yn gyfraniad mewn-da o £34,900 i gyfraniad arian parod o £34,900.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 3 Tachwedd 2021 heb eu diwygio. |